# Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw **deddfwriaeth gwahaniaethu** sydd yn effeithio ar ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, ac ar ysgolion a gynhelir ac annibynnol addysg arbennig. **Mae yna gyfrifoldeb ar bob aelod o staff i gadw at y Ddeddf Cydraddoldeb 2010** trwy ddilyn y tair dyletswydd sector cyhoeddus:

- **Hyrwyddo cydraddoldeb o gyfleoedd**
- **Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da**
- **Dileu achosion o wahaniaethu**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi ei fod yn **anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn disgybl, neu ddarpar ddisgybl, trwy eu trin yn llai ffafriol nag y byddent wedi cael eu trin oherwydd eu nodweddion ag diogelir: rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth ac ailbennu rhywedd.** Mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn disgybl oherwydd nodwedd warchodedig unrhyw un sy'n **gysylltiedig** â nhw. Neu oherwydd nodwedd warchodedig ydych chi'n **credu** fod ganddynt, hyd yn oed pan fyddwch wedi gwneud camgymeriad. E.e. *gwrthod ymgysylltu â disgybl oherwydd bod eu rhieni yn hoyw, neu os ydych yn meddwl bod nhw yn hoyw.*

## Mae yna bedwar math o ymddygiad gwahaniaethol anghyfreithlon:

**Uniongyrchol:** Trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

**Anuniongyrchol:** Mae darpariaeth, meini prawf neu arfer yn cael ei ddefnyddio ond wedi cael yr effaith o roi pobl o nodwedd warchodedig benodol o dan anfantais.

**Aflonyddu:** Ymddygiad digroeso mewn perthynas i nodweddion gwarchodedig perthnasol gyda'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas, neu greu amgylchedd bygythiol, diraddiol, gelyniaethus neu sarhaus *er eu bod* yn weithred neu ymddygiad **bwriadol** neu **anfwriadol**.

**Fictimeiddio:** Trin rhywun yn llai ffafriol nag arfer oherwydd rhywbeth maent wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r Ddeddf. E.e. *ni ddylai ddisgybl gael ei fictimeiddio trwy gysylltiad os yw rhiant / brawd neu chwaer wedi cwyno am ymddygiad gwahaniaethol anghyfreithlon honedig athro.* Ond mae ewyllys da plentyn yn berthnasol, ac nid yw'n fictimeiddio i gywiro ymddygiad blentyn am anonestrwydd am ddigwyddiad honedig os canfyddir i fod yn anwir.

## Oeddech chi'n gwybod?

- ✓ Mae oedran fel nodwedd wedi'i ddiogelu yn y Ddeddf yn y byd gwaith ond ddim yn yr ysgol. *E.e. nid yw'n anghyfreithlon i drefnu plant mewn grwpiau oedran neu eu trin yn briodol ar gyfer eu hoedran neu eu camau datblygu.*
- ✓ Mae'r gyfraith dros anabledd yn wahanol i unrhyw nodwedd warchodedig arall oherwydd ei fod yn gweithio mewn un cyfeiriad; mae'n amddiffyn pobl anabl ond nid yw'n amddiffyn pobl sydd ddim yn anabl. Gall ysgolion drin disgyblion anabl yn fwy ffafriol na disgyblion sydd ddim yn anabl er mwyn rhoi myfyrwyr yn sefyllfa fwy tebyg.
- ✓ Er nad yw'r Ddeddf yn effeithio'n uniongyrchol ar y berthynas rhwng disgyblion, mae yn delio yn uniongyrchol gyda sut y mae ysgolion yn trin disgyblion. E.e. *os bydd athro anwybyddu cwynion o fwlio hiliol gallant fod yn euog o wahaniaethu anghyfreithlon am drin bwlio sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn llai difrifol na mathau eraill o fwlio.*
- ✓ Nid yw'n waharddiad anghyfreithlon o eraill pan fydd ysgolion yn darparu mesurau 'Gweithredu Cadarnhaol' er mwyn ateb angen penodol neu leihau anfanteision a brofir gan ddisgyblion â nodweddion gwarchodedig. E.e. *mae'n gyfreithiol i gynnal sesiynau dal i fyny arbennig ar gyfer plant Sipsiwn.*
- ✓ Nid yw'r Ddeddf yn ymdrin yn benodol â pholisi gwisg ysgol, fodd bynnag mae'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi fod angen i ysgolion fod yn ofalus o bolisïau gwisg i sicrhau nid ydynt yn gwahaniaethu nodweddion gwarchodedig a rhaid bod yn sensitif i anghenion diwylliannol a chrefyddol.

## Eithriadau

- ✓ **Derbyniadau:** Gall ysgolion unrhyw wrthod derbyn disgyblion o'r rhyw gyferbyniol, a derbyn nifer cyfyng o ddisgyblion o'r rhyw gyferbyniol ar sail eithriadol mewn perthynas â dosbarthiadau arbennig (nid yw'r cyfyngiadau o rifau yn wahaniaethol). Nid yw ysgol yn colli ei statws un rhyw os yw disgybl yn mynd drwy newid rhyw ac yn parhau i fod yn yr ysgol. Gall ysgolion o gyswllt crefyddol derbyn ddisgyblion sydd o grefydd yr ysgol fel blaenoriaeth, oni bai fod lleoedd heb eu llenwi. Fodd bynnag, er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth yn ardal leol ysgolion, gall ysgolion o gyswllt crefyddol roi llefydd ar gyfer plant o grefyddau eraill (ond nid yn ôl ethnigrwydd).
- ✓ **Braint, cyfadran a gwasanaeth:** Gall ysgolion o gyswllt crefyddol gael mynediad i agweddau arall o fywyd ysgol, sydd ddim o reidrwydd yn rhan o'r cwricwlwm ac ymddwyn mewn ffordd sy'n gydnaws â'u hethos crefyddol. E.e. *nid yw ysgol Iddewig sydd yn derbyn gofal bugeiliol gan Rabi yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion o ffydd eraill trwy beidio â rhoi darpariaeth gyfatebol i grefyddau eraill*. Fodd bynnag, mae yn anghyfreithlon i drin disgybl yn llai ffafriol oherwydd nad ydynt yn perthyn i grefydd benodol yr ysgol neu mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig arall. E.e. *Byddai ysgol ffydd yn gweithredu'n anghyfreithlon os yw'n gwrthod derbyn plentyn am eu bod, neu eu rhieni, yn hoyw.*
- ✓ **Cynnwys y cwricwlwm:** Mae ysgolion yn rhydd i gynnwys amrywiaeth o faterion, syniadau a deunydd yn y cwricwlwm, ac agor disgyblion i feddyliau a syniadau o bob math, dim ots pa mor heriol neu ddadleuol, heb ofni am heriau cyfreithiol yn seiliedig ar nodwedd warchodedig. E.e. *os yw bachgen yn cwyno ei fod yn gwahaniaethu ar sail rhyw iddo orfod neud modiwl ar feddwl ffeministaidd neu os fyddai disgyblion heterorywiol neu grefyddol yn gwrthwynebu prosiect Balchder Hoyw oherwydd ei fod yn wahaniaethol ar gyfeiriadedd rhywiol neu ar sail grefyddol, nid fyddai ganddynt gŵyn ddilys o dan y ddeddf*. Serch hynny, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau fod y ffordd y mae materion yn cael eu dysgu ddim yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion. E.e*. Os yw athro byth yn gofyn am farn disgyblion du, a gwneud yn glir nad oes diddordeb yn eu barn, byddai cwyn o wahaniaethu yn ddilys.*
- ✓ **Cydaddoli:** Mae'r weithred o gydaddoli dyddiol o natur Gristnogol yn orfodol ar gyfer ysgolion ag cynhelir, a gall pob ysgol cael gweithredoedd addoli neu fathau eraill o gydaddoli. Nid yw ysgolion yn gweithredu'n anghyfreithlon os nad ydynt yn darparu gweithredoedd cyfatebol o addoli i grefyddau eraill, ond maen nhw'n rhydd i ddathlu unrhyw ŵyl grefyddol (e.e. *stori'r geni / Eid / Diwali*) heb gael eu cyhuddo o fod yn wahaniaethol yn erbyn plant o grefyddau eraill.